# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 154(v2)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

[Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig]

**Lee Waters (Llanelli)** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o benderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i gymhwyso cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y drydedd flwyddyn yn olynol?

[Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg]

**Lynne Neagle (Torfaen)** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Datganiad gan Paul Davies: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod - Bil Awtistiaeth (Cymru)

(30 munud)

## 7 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ymadawiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(30 munud)

## 8 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad 02-18 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

**NDM6773** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 02-18 a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 9 Gorffennaf 2018 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad bod achos o dorri amodau wedi ei ganfod a phenderfynu y dylai'r Aelod, o dan Reol Sefydlog 22.10 (iii) gael ei

geryddu a'i wahardd o drafodion y Cynulliad am gyfnod o 14 diwrnod calendr, gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf tymor y Cynulliad ar ôl toriad yr haf (17 Medi 2018).

## 9 Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017 - 18

(30 munud)

**NDM6774** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 8(8) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Yn nodi'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Gorffennaf 2018.

## 10 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel

(60 munud)

**NDM6771** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2018.

## 11 Cyfnod pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6772** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Gweithredu terfynau cyflymder diofyn o 20 mya mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 18 Medi 2018